**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aelodau'r Cynulliad

09 Mai 2014

Annwyl Aelod y Cynulliad

Yn ystod y sesiwn Cwestiynau Busnes ar 29 Ebrill, gofynnodd Joyce Watson AC am yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan dasglu arbennig yr wyf wedi'i sefydlu i helpu i ddiogelu dyfodol Purfa Olew Aberdaugleddau. Rwy'n ysgrifennu i roi manylion y gwaith hwnnw ichi.

Byddwch yn ymwybodol bod perchnogion y Burfa wedi ceisio gwerthu'r burfa ac wedi cyhoeddi cyfnod ymgynghori gyda'r gweithwyr dros ddyfodol y safle.

Byddwch hefyd yn gwybod mai gwaith y tasglu lefel uchel, o dan Gadeiryddiaeth Nick Bourne yw cefnogi Murco Petroleum Ltd i ddiogelu dyfodol y burfa a'r swyddi yn y gwaith ac yn y gadwyn gyflenwi yn yr hirdymor.

Mae aelodau'r gweithlu'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig, Murco Petroleum Limited, Murphy Oil Corporation, Coleg Sir Gâr, yr Awdurdod Lleol a'r Undebau Llafur perthnasol.

Mae'r gweithgor yn cwrdd yn wythnosol ac mae ganddyn nhw un amcan clir – cynnwys y partneriaid mewn trafodaethau lefel uchel i helpu'r cwmni i gynnal dyfodol y burfa ar y safle. Mae'r tasglu'n rhagweithiol wrth ystyried yr opsiynau allai helpu'r cwmni i ymateb i'r sefyllfaoedd newydd hyn. Rwy'n croesawu'r dull hwn o gydweithio ac ewyllys da pawb wrth geisio dod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o gadw staff y safle mewn gwaith yn yr hirdymor.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r cwmni a buddsoddwyr trydydd parti posibl er mwyn ceisio sicrhau ymarferoldeb y cwmni yn yr hir dymor.

Fel Llywodraeth, rydym yn benderfynol o wneud popeth y gallwn ni i helpu'r cyflogwr a'i weithlu yn ystod y cyfnod anodd hwn.

